SP Energy Networks

**Creu Cysylltiad**

# Gofynion Gwybodaeth Sylfaenol

# Gofynion Gwybodaeth Sylfaenol

Mae'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer amcangyfrifon o gyllideb ar gyfer mesuryddion, opsiynau quote plus a chynigion ffurfiol (dyfynbrisiau) wedi'i nodi yn adran 5 y ddogfen ganlynol gan Ofgem – RIIO-ED2 Regulatory Instructions and Guidance: Annex G – Connections. Mae modd gweld y ddogfen hon **Ar-lein →**.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o'r gofynion hyn.

## Amcangyfrif o'r Gyllideb

### Dyma'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen i amcangyfrifo cyllideb:

1. Enw a chyfeiriad y cwsmer (cyfeiriad gohebu), manylion cyswllt eraill a'r dull cysylltu mae'n ei ffafrio.
2. Cyfeiriad y safle.
3. Cynllun y safle ar raddfa briodol i ddangos ffin y safle. Dylai'r cynllun gynnwys rhai o'r nodweddion a'r enwau ffyrdd presennol er mwyn gallu dod o hyd i'r safle'n hawdd.
4. Y dyddiad, pan fydd ar gael, sy'n dangos erbyn pryd mae'r Cwsmer angen i'r cysylltiad neu'r cysylltiadau gael eu gwneud.
5. Y gofyniad uchafswm capasiti (kVA).
6. Crynodeb o fanylion technegol generadur trydan y mae'n rhaid iddo weithredu ochr yn ochr â'r cyflenwad.
7. Crynodeb o fanylion technegol unrhyw gyfarpar sy'n eiddo i'r Cwsmer ac sy'n debygol o amharu ar y cyflenwad trydan (hynny yw, moduron mawr, weldwyr ac ati).

## Quote Plus

*(Ystyried opsiynau)*

### Dyma'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer Quote Plus:

1. Enw a chyfeiriad y cwsmer (cyfeiriad gohebu), manylion cyswllt eraill a'r dull cysylltu mae'n ei ffafrio.
2. Cyfeiriad y safle.
3. Cynllun y safle ar raddfa briodol i ddangos ffin y safle. Dylai'r cynllun gynnwys rhai o'r nodweddion a'r enwau ffyrdd presennol er mwyn gallu dod o hyd i'r safle'n hawdd.
4. Y dyddiad, pan fydd ar gael, sy'n dangos erbyn pryd mae'r Cwsmer angen i'r cysylltiad neu'r cysylltiadau gael eu gwneud.
5. Y gofyniad uchafswm capasiti (kVA) (uchafswm o 3 opsiwn).
6. Crynodeb o fanylion technegol generadur trydan y mae'n rhaid iddo weithredu ochr yn ochr â'r cyflenwad.
7. Crynodeb o fanylion technegol unrhyw gyfarpar sy'n eiddo i'r Cwsmer ac sy'n debygol o amharu ar y cyflenwad trydan (hynny yw, moduron mawr, weldwyr ac ati).
8. Llythyr awdurdodi os yw'r ymgeisydd yn gweithredu fel asiant i'r Cwsmer.

## Cynnig Ffurfiol

### Dyma'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer Cynnig Ffurfiol (Dyfynbris):

1. Enw'r Cwsmer / Parti Contractio (dyma'r person a fydd yn gyfrifol am dalu) a'i gyfeiriad, manylion cyswllt eraill a'r dull cysylltu mae'n ei ffafrio.
2. Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd os yw'n wahanol i'r uchod.
3. Cyfeiriad y safle a rhifau MPAN presennol neu Gytundebau Cysylltu pan fydd hynny'n berthnasol.
4. Manylion unrhyw achosion cysylltiedig o ddatgysylltu gyda llythyrau awdurdodi priodol gan ddeiliad y cyfrif cofrestredig.
5. Cynllun y safle ar raddfa briodol sy'n dangos ffin y safle, cynllun adeiladau a ffyrdd, a ble y cynigir neu y disgwylir i is-orsafoedd gael eu lleoli. Dylid cynnwys nodweddion ac enwau ffyrdd presennol er mwyn gallu dod o hyd i'r safle'n rhwydd. Ar gyfer safleoedd sydd â sawl meddiannydd, dylid cynnwys croestoriadau adeiladau a chynlluniau llawr. Dylid sicrhau nad oes manylion diangen ar y cynlluniau, a'u bod yn addas i'w defnyddio fel haen gefndir ar gyfer llunio cynnig y Dosbarthwr Trydan. Dylid cyflwyno cynlluniau mewn fformat .pdf, a hefyd mewn fformat .dwg os yw ar gael.
6. Lleoliad arfaethedig pob pwynt mesur.
7. Llythyr awdurdodi os yw'r ymgeisydd yn gweithredu fel asiant i'r Cwsmer.
8. Y dyddiad sy'n dangos erbyn pryd mae'r Cwsmer angen i'r cysylltiad neu'r cysylltiadau gael eu gwneud.
9. Uchafswm capasiti (kVA) ym mhob pwynt mesur i'w gysylltu. Nodwch y math o gysylltiad – un cam neu dri cham – ar gyfer cyflenwadau <=100A. Ar gyfer pob eiddo domestig, rhowch fanylion y math o ddull gwresogi (nwy neu drydan), nifer yr ystafelloedd gwely, statws tŷ sengl/nad yw'n sengl, ac unrhyw fannau cynhyrchu neu wefru cerbydau trydan. Ar gyfer cyflenwadau masnachol, dylech gynnwys dadansoddiad o'r cyflenwadau unigol sy'n cyfrannu at y lefelau cynhyrchu a'r lefelau galw mwyaf.
10. Manylion technegol generadur trydan y mae'n rhaid iddo weithredu ochr yn ochr â'r cyflenwad (gweler y gofynion ar gyfer yr wybodaeth ychwanegol am gynhyrchu).
11. Manylion technegol unrhyw gyfarpar sy'n eiddo i'r Cwsmer sy'n debygol o amharu ar y cyflenwad trydan (hynny yw, moduron mawr, weldwyr ac ati).
12. Unrhyw daliad y mae'n rhaid ei wneud ymlaen llaw er mwyn i'r gwasanaeth gael ei ddarparu.

## Cynnig Ffurfiol
*(Manylion Ychwanegol am Gynhyrchu)*

### Dyma'r wybodaeth ychwanegol sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer Cynnig Ffurfiol (Dyfynbris):

1. Os ydych chi'n gwneud cais am gysylltiad cynhyrchu ≥50kW a <1MW, rhaid i chi gyflwyno Ffurflen Gais Safonol G99 ochr yn ochr â'r wybodaeth a nodir uchod.
2. Os ydych chi'n gwneud cais am gysylltiad cynhyrchu ≥1MW, rhaid i chi gyflwyno Ffurflen Gais Safonol G99, a rhaid darparu'r 5 eitem isod hefyd:
   I. Penawdau Telerau (HoT).
   II. Lluniadau Safle y mae'n rhaid iddynt gynnwys Cynllun o'r Safle a Chynllun Peiriannu Manwl.
   III. Diagram Un Llinell
   IV. Amserlen Ragarweiniol y Prosiect.
   V. Rhan 4 Ffurflen Gais Safonol G99 wedi'i llenwi'n rhannol.
3. Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am ofynion cysylltiadau cynhyrchu ≥1MW yn nogfen ganllaw "DNO Queue Entry Requirements for Generation Schemes" gan ENA: New Distribution Queue Entry Requirements – Energy Networks Association (ENA).

## Cynnig Ffurfiol Cystadleuaeth mewn Cysylltiadau

### Dyma'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer Cynnig Ffurfiol Cystadleuaeth mewn Cysylltiadau (Dyfynbris):

1. Enw a chyfeiriad y cwsmer (cyfeiriad gohebu), manylion cyswllt eraill a'r dull cysylltu mae'n ei ffafrio.
2. Cyfeiriad / lleoliad y safle.
3. Y gwasanaeth angenrheidiol.
4. Y dyddiad sy'n dangos erbyn pryd mae'r Cwsmer angen i'r cysylltiad neu'r cysylltiadau gael eu gwneud.
5. Gofynion (mewngludo) uchafswm capasiti (kVA) – gwnewch yn siŵr bod y math o ddull gwresogi a'r manylion am wefru cerbydau trydan wedi'u cynnwys pan fydd hynny'n berthnasol.
6. Uchafswm capasiti (kVA) y generaduron arfaethedig (gan gynnwys ffurflenni G98, G99 a G100 ENA pan fydd hynny'n berthnasol).
7. Crynodeb o fanylion technegol unrhyw gyfarpar sy'n eiddo i'r Cwsmer ac sy'n debygol o amharu ar y cyflenwad trydan (hynny yw, moduron mawr, weldwyr ac ati).
8. Unrhyw daliad y mae'n rhaid ei wneud ymlaen llaw er mwyn i'r gwasanaeth gael ei ddarparu.

## Cynnig Ffurfiol Gwaith Dargyfeirio

### Dyma'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer Cynnig Ffurfiol Gwaith Dargyfeirio (Dyfynbris):

1. Enw'r Cwsmer / Parti Contractio (dyma'r person a fydd yn gyfrifol am dalu) a'i gyfeiriad, manylion cyswllt eraill a'r dull cysylltu mae'n ei ffafrio.
2. Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd os yw'n wahanol i'r uchod.
3. Cyfeiriad y safle.
4. Cynllun y safle ar raddfa briodol i ddangos ffin y safle, cynllun adeiladau a ffyrdd, ac os yw'r Cwsmer yn disgwyl i is-orsaf gael ei symud, lleoliad arfaethedig yr is-orsaf/is-orsafoedd newydd. Ni ddylai'r cynllun gynnwys manylion diangen, a dylai fod yn addas i'w ddefnyddio fel haen gefndir ar gyfer lluniad cynnig y Dosbarthwr Trydan.
5. Llythyr awdurdodi os yw'r ymgeisydd yn gweithredu fel asiant i'r Cwsmer, a llythyr awdurdodi gan yr Awdurdod Lleol os yw'r cynnig dargyfeirio i'w gyhoeddi o dan delerau ac amodau Deddfau Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd.
6. Cadarnhad o'r telerau talu os yw'r cais dargyfeirio o dan delerau ac amodau Deddfau Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd.
7. Y dyddiad sy'n dangos erbyn pryd mae'r Cwsmer angen i'r gwaith dargyfeirio gael ei gwblhau.

# Gwybodaeth ychwanegol

**Yn ystod ein gwaith i ddarparu'r cynnig ffurfiol, efallai y byddwn yn dod yn ymwybodol bod angen rhagor o wybodaeth arnom, naill ai am gynigion y Cwsmer neu mewn perthynas â'n cynigion ni. Pan fyddwn yn gofyn yn ffurfiol am wybodaeth ychwanegol o'r fath, bydd y cloc yn cael ei rewi ac yna'n ailddechrau ar ôl i ni gael yr wybodaeth ychwanegol.**

Bydd yr wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen yn dibynnu ar amgylchiadau'r cysylltiad a'r gofynion gwybodaeth sylfaenol, ond gall gynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth neu gytundeb mewn perthynas â lleoliad arfaethedig is-orsaf.
- Gwybodaeth neu gytundeb mewn perthynas â llwybrau ceblau arfaethedig. Canllawiau – RIIO-ED2 Regulatory Instructions and Guidance: Annex G – Connections 61.
- Gwybodaeth neu gytundeb mewn perthynas â phwyntiau mesur arfaethedig neu leoliad eitemau o gyfarpar nad ydynt yn cynnwys mesurydd.
- Rhagor o fanylion am y capasiti y mae angen ei ddarparu ar bob pwynt mesur neu fanylion am natur y cyfarpar trydanol i'w ddefnyddio gan y Cwsmer.
- Rhagor o fanylion am ddefnydd arfaethedig y Cwsmer o'r cyfarpar trydanol.
- Rhagor o fanylion am berchnogaeth tir a/neu hawliau tir y mae'r Cwsmer yn debygol o wybod amdanynt.
- Rhagor o fanylion am halogi tir.
- Cadarnhad o'r opsiwn dylunio i'w adlewyrchu yn y dyfynbris lle mae gan y Dosbarthwr Trydan fwy nag un opsiwn ymarferol dan ystyriaeth.
- Cynllun y safle ar raddfa briodol i ddangos ffin y safle.
- Llythyr awdurdodi os yw'r ymgeisydd yn gweithredu fel asiant i'r Cwsmer.
- Manylion technegol generadur trydan y mae'n rhaid iddo weithredu ochr yn ochr â'r cyflenwad.
- Manylion technegol unrhyw gyfarpar sy'n eiddo i'r Cwsmer ac sy'n debygol o amharu ar y cyflenwad trydan (hynny yw, moduron mawr, weldwyr ac ati).
- Unrhyw wybodaeth arall y gall y Dosbarthwr Trydan ofyn amdani'n rhesymol.

SP Energy Networks

*Creu Cysylltiad*

**Gofynion Gwybodaeth Sylfaenol**

spenergynetworks.co.uk